

Canllaw am Ymweliad Ysgol i Gastell Henllys

Cynnwys y sesiwn

Mae'r sesiynau a cynnigwyd gan Gastell Henllys wedi'i gysylltu i amcanion allweddol y Parc Cenedlaethol ac i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Cysylltwch a ni cyn eich ymweliad os oes gennych amcanion pennodol yr hoffwch gyflawni yn ystod eich ymweliad.

Teitl Sesiwn	Gweithgareddau
<p>Diwrnod yn yr Oes Haearn Addas i Gyfnod Sylfaenol i CA2</p> <p>Hyd sesiwn: O gwmpas 3.5 awr gyda thoriad am ginio ond gallwn newid amserau i siwtio.</p>	<p>Sesiwn addysgiadol gan ein dehonglwrwyr mewn gwisg lle bydd y disgyblion yn teithio nôl mewn amser i'r Oes Haearn lle fydd yna weithgareddau ac arddangosiadau sydd yn ufudd i ganllawiau a rheolau Cofid-19. Mae cynnwys y gweithgareddau a'r arddangosfeydd wedi'i ddisgrifio isod.</p>
	<p>Adeiladu Caiff disgyblion ei chyflwyno i ffurfiau adeiladu yn yr Oes Haearn trwy ddysgu sut i adeiladu tŷ crwn. Bydd y sgwrs yn son am y defnydd gwahanol, ei tharddiad a'u cynaliadwyedd; y broses adeiladu (arddangosfa dwb a bangori) a sut fydd y tŷ gorffenedig yn edrych fel ac yn gweithio.</p> <p>Gweithgaredd- Bydd y plant yn cael tro ar bangori gyda brigau ac yna cymryd rhan yng Ngem yr Adeiladwr.</p> <p>Agweddau o'r cwricwlwm: Dylunio a thechnoleg, Hanes, mathemateg, cynaladwyedd</p> <p>Mesurau Diogelu: Mae rhaid i athrawon a phlant dros 11 oes gwisgo mwgwd mewn ardaloedd dan do. Fydd y dehonglwr yn gwisgo miswrn tra mewn tu fewn. Bydd pob grŵp yn defnyddio brigau sydd wedi cael ei gadel allan am 72 awr cyn cael ei defnyddio.</p>
	<p>Coginio</p> <p>Bydd disgyblion yn dysgu am fwyd yn yr Oes Haearn- o le'r oedd yn dod a sut roedd yn cael ei pharatoi i fwyta. Bydd y dehonglwr yn arddangos sut i greu bara.</p> <p>Gweithgaredd- Fydd y plant yn cael siawns i ddefnyddio'r cerrig malu i greu blawd a siapio toes.</p> <p>Agweddau o'r cwricwlwm: Gwyddoniaeth (Maetheg), Coginio, Hanes</p> <p>Mesurau Diogelu: Mae rhaid i athrawon a phlant dros 11 oes gwisgo mwgwd mewn ardaloedd dan do. Fydd y dehonglwr yn gwisgo miswrn tra mewn tu fewn. Fydd y cerrig malu yn cael ei chwistrelli gan chwistrell gwrthfeirws ar ddechrau a diwedd bob dydd.</p>

Trysorau'r Pennaeth

Bydd y plant yn cael ei cyflwyno i pennaeth y pentref. Bydd y pennaeth y cyflwyno cymdeithas Oes Haearn i'r plant yn fras trwy siarad am gwahanol arteffatau yn y ty mewn ffordd hwylus. Er enghraifft:

- Hoff clogyn- sut roedd dillad yn cael ei creu
- Drych, torch, cleddyf- defnydd wahanol o metalm dangos statws.
- Crochan- Duwiau a chrefydd
- Pen/ Croen mochyn- Troffiau hela a rhyfel

Gweithgaredd: Gem Brolio- lle mae'r plant yn cael eu rhannu mewn u grwpiau cyn penderfynu ar eitem sydd arnynt (esgid, sanau, ipad) i'w ddisgrifio mewn stori ryfeddol am pam mae'r eitem yna yw'r gorau o'r holl eitemau arall. Fydd y pennaeth yn dewis pa eitem yw'r gorau.

Agweddau o'r cwricwlwm: Iaith, Gweithio fel tîm, datrys problemau

Mesurau Diogelu: Mae rhaid i athrawon a phlant dros 11 oes gwisgo mwgwd mewn ardaloedd dan do. Fydd y dehonglwr yn gwisgo miswrn tra mewn tu fewn.

Ffordd y Rhyfelwr

Bydd y plant yn cael eu cyflwyno i ryfela yn yr Oes Haearn. Fydd y dehonglwr yn siarad ac arddangos sut roedd pobol Oes Haearn yn mynd mewn i ryfel (arfau, arfwisg, sŵn). Os fydd y tywydd yn caniatáu bydd y dehonglwr yn dangos a siarad am amddiffyniadau'r fryngaer a dangos sut roedd y ffon dafl yn cael ei defnyddio. Os na fydd y tywydd dyn caniatáu bydd y dehonglwr yn arddangos dechrau tan a siarad am bwysigrwydd tan am wres, golau a choginio.

Gweithgaredd: Tywydd yn caniatáu- Cael tro ar ffon dafl. Tywydd ddim yn caniatáu: Arddangosfa dechrau tan.

Agweddau o'r cwricwlwm- cydraddoldeb cenedl, hanes, daearyddiaeth,

Mesurau Diogelu: Mae rhaid i athrawon a phlant dros 11 oes gwisgo mwgwd mewn ardaloedd dan do. Fydd y dehonglwr yn gwisgo miswrn tra mewn tu fewn. Dim ond dau plenty fydd medru cael tro ar y ffon dafl ar yr un pryd. Ar ddiwedd y dydd fydd y dehonglwr yn cael gwared â'r toes a defnyddiwyd i daflu, chwistrellu lawr y ffyn dafl a'u rhoi mewn cwarantyn am 72 awr.

Cyn eich Ymweliad

Cyn-ymweliad gan athro

Mae croeso i athrawon i gwneud cyn-ymweliad i'r safle (di-dâl). Fydd angen bwcio eich ymweliad.

Staffio

Mae'n rhaid i'r ysgol sicrhau ei fod yn darparu'r nifer o staff sydd yn angenrheidiol ar gyfer ymweliadau ysgolion yn ôl ei awdurdod lleol. Ar ran y safle, pa bynnag mor fach yw'r grŵp, mae rhaid bod yna ddau aelod o staff yr ysgol gyda'r grŵp ac yna o leiaf un aelod ychwanegol i bob 15 disgybl wedi hyn.

Anghenion Arbennig

Ymdrechwn yma yng Nghastell Henllys i wneud ein gweithgareddau yn agored i bawb, beth bynnag eu gallu. Cynghorwch ni am unrhyw blentyn sydd gydag alergedd, cyflyrau meddygol neu anghenion arbennig felly gallwn addasu'r gweithgareddau i siwtio. Mae'r llwybr i'r pentref yn medru fod yn serth mewn rhai manau felly gadewch i ni wybod os oes gennych blant mewn ffyn baglau neu gadair olwyn gan fedrwn fynd a nhw i fyny i'r pentref yn ein 'peiriant amser' (car y safle). **Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ni allwn gynnig gwasanaeth car ar y foment ond mae gennym sgwter mudoedd ar gael i'w ddefnyddio.**

Amseriadau

Bydd amseriadau wedi cael eu cytuno pan wnaethoch archebu'r sesiwn. Os mae'r grŵp yn hwyr yn cyrraedd yna ymdrechwn i gwblhau'r sesiwn fel y cytunwyd, ond fydd gennym yr hawl i addasu neu ganslo'r sesiwn.

Dillad

Mae angen i'r grŵp fod wedi'u wisgo ar gyfer tywydd amrywiol Sir Benfro. Dylai esgidiau addas cael ei gwisgo mae cotiau gwrthddwr yn hanfodol. Cynghorwn i blant gwisgo dillad bob dydd.

Iechyd a Diogelwch

Cynghorwch ni ynglŷn ag unrhyw blentyn sydd gydag alergedd, cyflwr meddygol neu anghenion arbennig.

Mae asesiad risg ar gyfer y sesiwn addysg yn cael ei ddarparu i'r ysgol gyda'r llythyr bwcio. Darllenwch y ddogfen yn ofalus ac os oes gennych unrhyw gwestiynau yna cysylltwch â ni. Rhaid pwysleisio taw fod bodolaeth yr asesiad risg ar gyfer y sesiwn gan Gastell Henllys ddim yn eithrio ysgolion o'u chyfrifoldeb. Rhaid i staff yr ysgolion cwblhau'r gwaith papur angenrheidiol, gan gynnwys asesiad risg, fel rhan o ofyniadau eu LEA neu gorff llywodraethu.

Mae'r ddyletswydd gofal cyfreithiol am y drefniadaeth ddiogel a throsglwyddo'r sesiwn yn gorwedd gyda staff Castell Henllys. **Ond mae'r prif gyfrifoldeb am ofal, ymddygiad a rheolaeth y disgyblion dan ofal yr arweinydd o'r ysgol ar bob adeg yn ystod yr ymweliad.**

Tywydd Garw

Os ar ddiwrnod eich ymweliad mae yna rybudd tywydd Melyn (am unrhyw dywydd) wedi'i gyhoeddi neu'i rhagolygi gan y Met Office am ardal SA41, bydd y safle yn galw'r ysgol diwrnod cyn eich ymweliad i gynghori os dylai'r ymweliad mynd yn ei flaen.

Os mae yna rybudd Ambr (am unrhyw dywydd) wedi'i gyhoeddi neu wedi'i rhagolygi gan y Met Office am ardal SA41 ar ddiwrnod eich ymweliad, bydd y safle yn galw'r ysgol i ganslo'r ymweliad a'i ail-drefnu.

Os mae tywydd garw yn effeithio ardal eich ysgol a'ch gallu i ymweld â'r safle, yna cynghorwch ni o'r sefyllfa mor gynted â phosib.

Cofid-19

Os fydd unrhyw un yn eich ysgol yn datblygu symptomau cyn ymweld â'r safle yna cysylltwch â ni mor gynted â phosib i ganslo neu ail-drefnu eich ymweliad. Os rydych yn cael ei rhoi o dan gyfnod clo lleol yna cysylltwch â ni i ail drefnu eich ymweliad neu i drefnu profiad digidol.

Os bydd winrawn yn eich dosbarth yn datblygu symptomau o fewn 14 diwrnod ar ôl ymweld â'r safle yna cysylltwch â ni mor gynted â phosib.

Os fydd unrhyw un o staff Castell Henllys yn datblygu symptomau o fewn 14 diwrnod wedi eich ymweliad yna byddwn yn eich cysylltu yn syth.

Newid neu Ganslo eich Sesiwn

Weithiau fydd amgylchiadau yn newid lle fydd hi'n angenrheidiol i nai llai Castell Henllys neu'r ysgol i ganslo ac ail-drefnu'r ymweliad. Yn yr ystod hon mae'n bwysig i'r ddau barti cael gwybod y sefyllfa mor gynted â phosib. Os hoffwch ganslo neu ail-drefnu yna cysylltwch gyda ni gyda manylion eich ymweliad. Unwaith mae'r newidiadau wedi'u gadarnhau bydd llythyr archeb newydd yn cael ei ddanfon i chi.

Fydd unrhyw ganslad o fewn 48 awr o'r sesiwn yn derbyn ffi gweinyddiad. Ni fydd ffi os rheswm y canslad yw tywydd garw neu Covid-19 yn effeithio'r ysgol..

Ar ddiwrnod eich ymweliad

Cyfarwyddiadau i Yrwy Bysus

Gweler tudalen diwethaf y ddogfen am fwy o wybodaeth os rydych yn teithio trwy Gaerfyrddin.

Cyrraedd

Disgwylir i'r ysgol i gyrraedd y safle ar yr amser y cytunwyd yn barod i gyflawni'r sesiwn. Ffoniwch ni os mae yna unrhyw oedi. Os fyddwch yn cyrraedd yn hwyr byddwn yn ymdrechu i gyflawni'r sesiwn ond mae gennym yr hawl i addasu'r sesiwn i alluogi'r disgyblion profi rhan fwyaf o'r gweithgareddau.

Wrth gyrraedd dylai bysus parcio wrth ymyl Eglwys St Dogfael lle fydd aelod o staff Castell Henllys yn disgwyl amdanoch. **Os nad yw aelod o staff Castell Henllys yn bresennol wrth i chi gyrraedd, arhoswch ar y bws nes iddynt gyrraedd.**

Amlinelliad cyffredinol o'r dydd

10:30-Cyrraedd a Chyfeiriadaeth

10:40- Stop toiled a theithio dol mewn amser

10:50-Cyrraedd y pentref, croeso a rhoi disgyblion mewn i grwpiau

11:00-Gweithgaredd 1

11:30-Gweithgaredd 2

12:00-Egwyl Cinio (20-30munud)

12:30-Gweithgaredd 3

1:00- Gweithgaredd 4

1:30- Casglu bagiau, gadael y pentref, teithio nôl i'r presennol

1:45- Stop toiled a cherdded nôl i'r bws

2:00- Gadael

Rhagofalon Ychwanegol Covid-19

Rydym wedi rhoi rhagofalon ychwanegol mewn lle i sicrhau eich diogelwch yn yr amser hwn:

- Ni fydd aelodau o'r cyhoedd ar y safle yn ystod eich ymweliad.
- Fydd staff Castell Henllys yn gwisgo misyrnau am bob gweithgaredd a sgwrs yn y tai crwn.
- Fydd angen i blant dros 11oed ac athrawon i wisgo mygydau yn y tai crwn.
- Fydd staff Castell Henllys yn glanhau ardaloedd eistedd gyda chwistrell wrth firysau cyn i'r ysgol cyrraedd ac wedi iddynt fynd.
- Gweler yr Asesiad Risg am fwy o wybodaeth.

Ymddygiad

Cyfrifoldeb arweinydd y grŵp ysgol yw sicrhau ymddygiad addas y grŵp yn ystod yr ymweliad ac i gynorthwyo staff Castell Henllys i reoli'r grŵp. Cofiwch fydd aelodau o'r cyhoedd ar y safle hefyd yn ystod eich ymweliad.

Os yn ystod wich ymweliad fydd staff Castell Henllys yn barnu ymddygiad y grŵp i fod yn anniogel neu yn anaddas bydd yr hawl ganddynt i ddod a'r gweithgaredd i ben.

Taliad

Gall ysgolion talu ar ddiwrnod yr ymweliad neu dderbyn anfoneb ar ôl yr ymweliad. Y gost yw £4.50 (+VAT) y plentyn. Mae'r oedolion sy'n goruchwyllo yn cael dod am ddim. Cadarnhewch y nifer o ddisgyblion a fydd yn mynychu'r sesiwn 2 diwrnod cyn yr ymweliad- byddwch yn derbyn anfoneb am y nifer o blant ar y ffurflen bwcio heblaw cawn wybod am unrhyw newid.

Siop

Rydym dim ond yn derbyn tal carden ar y foment. Felly gall yr ysgol archebu pecynnau gwerth £1, £2, £3 cyn yr ymweliad.

Sbwriel

Er mwyn cadw at y rhith o deithio nôl mewn amser, nid oes biniau sbwriel yn y pentref. Os gwelwch yn dda, gofynnwch i'r plant i roi unrhyw wastraff yn ôl yn ei bagiau/ pecynnau bwyd i fynd adref gyda nhw i ailgylchu.

Cyfarwyddiadau i Fysus sydd yn dod I Gastell Henllys trwy Gaerfyrddin

Cymerwch yr A40 allan o Gaerfyrddin tuag at Sir Benfro. Gan ddilyn arwyddion i Abergwaun.

Arhoswch ar y A40 am 18.1 o filltiroedd.

Trowch i'r dde ymlaen i A478 gan ddilyn yr arwydd i Aberteifi

Arhoswch ar A478 am 15.2 o filltiroedd

Trowch i'r chwith ymlaen i'r B4332 gan ddilyn yr arwydd i Eglwyswrw

Dilynwch y ffordd yma am 3.4 o filltiroedd

Trowch i'r chwith ar y gyffordd yn Eglwyswrw ymlaen i'r A487

Dilynwch A487 am 1.5 o filltiroedd i'r arwydd brown Castell henllys

Trowch i'r dde a ewch lawr y ffordd i'r maes parcio'r bysus wrth ymyl yr eglwys.